**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING SUB-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**DYDD MERCHER, RHAGFYR 17fed, 2014**

**WEDNESDAY, 17th DECEMBER, 2014**

Lleoliad / Location:

**SIAMBR DAFYDD ORWIG,**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**

**CAERNARFON**

**am /at 10:00 am**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**BETHAN ADAMS (01286) 679 020**

bethanadams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 9/12/14

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

# LICENSING SUB-COMMITTEE

**Aelodaeth / Membership (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors

W Tudor Owen (Cadeirydd/Chairman)

Ann Williams

Llywarch Bowen Jones

Angela Russell (wrth gefn / reserve)

**Aelod Lleol / Local Member**

Cynghorydd/Councillor

Sion Jones

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

**Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.**

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

**Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.**

**3. MATERION BRYS**

**Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.**

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO– NEUADD GYMUNED BETHEL, BETHEL, CAERNARFON, LL55 1YE**
**Ystyried y cais uchod**

**(copi ynghlwm – papur glas)**

## TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

## PROCEDURES FOR LICENSING VARIATION HEARINGS

1. A written report will be presented by the Licensing Section (with recommendation).

2. Members of the Sub-committee may ask questions of the Council's representative.

3. At the Chairman's discretion the applicant and/or his representative may ask questions of the Council's representative.

4. The applicant and/or his representative may expand upon the application and call witnesses

5. Members of the Sub-committee may ask questions of the applicant and/or his representative

6. There will be an invitation for each consultee to support any written observations

7. Members of the Sub-committee may ask questions of the consultees.

8. At the Chairman's discretion the Council's representative and the applicant or his representative may summarise their case.

All are reminded of the four principles of the Licensing Act 2003 to be considered in all deliberations, namely:

1) **Crime and Disorder Prevention;**
2) **Public Safety;**
3) **Public Nuisance Prevention; and**
4) **Protection of Children from Harm.**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **17 RHAGFYR 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – NEUADD GYMUNED BETHEL** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

**CAIS**

Atodir cais am drwydded ar gyfer Neuadd Gymuned Bethel, Bethel , Caernarfon LL55 1YE gan Mr Cledwyn Pierce Jones, Cadeirydd Pwyllgor y Neuadd, 12 Bro Rhos, Bethel Caernarfon LL55 1AQ

Cyflwynir y cais mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedig dangos ffilmiau, cerddoriaeth fyw , perfformiad dawns a chyflenwi alcohol 7 diwrnod yr wythnos.

Mae'r ymgeisydd yn manylu yn adran M o'r cais (tudalen 16 yn yr atodiad) ar y camau y bwriedir eu cymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu sydd yn cynnwys

- Goruchwyliwyr drysau ar gyfer digwyddiadau mawr
- Neuadd bentref yn cydymffurfio a gofynion statudol yn dilyn gwaith adnewyddu sylweddol
- Dim gweithgareddau trwyddedig tu allan
- Cydymffurfiad ac amseroedd oriau gweithgareddau trwyddedig
- Gofyn i fynychwyr ymadael yr eiddo yn dawel
- Plant o dan ofalaeth rhieni/gwarchodwyr, a dim yn cael mynediad i ardal y bar
- Gweithredir polisi her 21

Gweler y manylion llawn yn y ffurflen gais mewn perthynas â'r camau a bwriedir eu cymryd gan yr ymgeisydd i sicrhau cydymffurfiad gyda'r amcanion trwyddedu.

Gofynnir am oriau gweithgaredd trwyddedig fel a ganlyn –

**Oriau Agor / Opening Hours:**
Dydd Llun/Monday 08:30-00:30
Dydd Mawrth/Tuesday 08:30-00:30
Dydd Mercher/Wednesday 08:30-00:30
Dydd Iau/Thursday 08:30-00:30
Dydd Gwener/Friday 08:30-00:30
Dydd Sadwrn/Saturday 08:30-00:30
Dydd Sul/Sunday 08:30-00:30

**Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activities:**
**Ffilmiau/Films** - Dan Do/Indoors
Dydd Llun/Monday 09:00-21:00
Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-21:00
Dydd Mercher/Wednesday 09:00-21:00
Dydd Iau/Thursday 09:00-21:00
Dydd Gwener/Friday 09:00-21:00
Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-21:00
Dydd Sul/Sunday 09:00-21:00

**Cerddoriaeth Fyw/Live Music** - Dan Do/Indoors
Dydd Llun/Monday 11:30-23:30
Dydd Mawrth/Tuesday 11:30-23:30
Dydd Mercher/Wednesday 11:30-23:30
Dydd Iau/Thursday 11:30-23:30

Dydd Gwener/Friday 11:30-23:30
Dydd Sadwrn/Saturday 11:30-23:30
Dydd Sul/Sunday 11:30-23:30

**Perfformiadau Dawns/Performances of Dance** - Dan Do/Indoors
Dydd Llun/Monday 09:00-23:30
Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-23:30
Dydd Mercher/Wednesday 09:00-23:30
Dydd Iau/Thursday 09:00-23:30
Dydd Gwener/Friday 09:00-23:30
Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-23:30
Dydd Sul/Sunday 09:00-23:30

**Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol** - Ar yr Eiddo/On Premises
Dydd Llun/Monday 11:00-00:00
Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-00:00
Dydd Mercher/Wednesday 11:00-00:00
Dydd Iau/Thursday 11:00-00:00
Dydd Gwener/Friday 11:00-00:00
Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-00:00
Dydd Sul/Sunday 11:00-00:00
*Gofynnir am awr ychwanegol ar gyfer nos Calan o ran cyflenwi alcohol ac amser agor i'r cyhoedd, ac amser ychwanegol ar gyfer eisteddfodau lleol mewn perthynas â cherddoriaeth fyw.

## YMGYNGHORIADAU

Ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd yr ymatebion canlynol -

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Cyngor Cymuned | 1 e bost sylwadau |
| Preswylwyr lleol | 2 Lythyr - gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | E Bost - dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr, dim gwrthwynebiad |

## CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD

### Cyngor Cymuned
Derbyniwyd llythyr gan Glerc y Cyngor yn datgan nad oedd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen wedi gallu dod i benderfyniad am y cais oherwydd diffyg tystiolaeth .

### Preswylwyr lleol
Derbyniwyd 2 lythyr yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus a throsedd ac anrhefn. Roedd yn o'r llythyrau yn anhysbys, ac wedi ei ysgrifennu ar ran cynrychiolaeth o bobl y pentref. Fe gyfeiriwyd at y ffaith nad oedd yn briodol defnyddio Neuadd Goffa fel adeilad trwyddedig.

Gweler manylion yr ymatebion yn yr atodiad i'r adroddiad.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.